**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberdaron gynhaliwyd nos Fawrth, Ebrill y 11eg 2023 yn Neuadd Rhoshirwaun am 7.30yh**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Mari Evans, Emlyn Jones, Jaci Jones, Dafydd Myrddin, Nesta Roberts, Dafydd Williams
**Yn y gadair:** Yr îs gadeirydd, Cyng Wil Evans
**1)Ymddiheuriadau a datgan diddordeb**: Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Dewi Evans, Wenda Williams ac RJ Williams. Datganodd y Cyng Gwenllian Hughes Jones ddiddordeb yng nghais Côr Cantorion Llŷn am gyfraniad ariannol.
**2)Cyhoeddiadau y cadeirydd:** Nid oedd gan y Cadeirydd gyhoeddiadau.
**3)Llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 13eg o Fawrth 2023:** Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir ac fe'u llofnodwyd gan y cadeirydd.
**4) Materion yn codi o'r cofnodion**
**i)Ymatebion Cyngor Gwynedd i faterion ffyrdd a llwybrau:** Cadarnhawyd fod y tyllau ger Bryn Llan, Rhoshirwaun wedi eu llenwi.
**ii)Materion yr Eglwys Newydd:** Ni fu cais datgan diddordeb y Cyngor i gronfa Cadw yn llwyddiannus.
Mae'r Cyngor wedi cysylltu gyda tri cwmni adeiladu er mwyn gofyn am bris i wneud gwaith trwsio brys i do yr adeilad yn dilyn difrod stormydd ond 'does dim prisiau wedi eu derbyn hyd yma.
Y mae mynd allan i dendr er mwyn cael prisiau ar gyfer gwaith trwsio brys yn rhan o frîff y pensaer, ac mae manyleb wedi ei gwneud eisioes gan y pensaer ar gyfer gwaith brys sydd yn angenrheidiol ar yr adeilad. Mae y clerc wedi ebostio y pensaer ddwywaith yn gofyn am arweiniad ganddo ond heb dderbyn ymateb. Fe wnaiff geisio cysylltu gyda fo ar y ffôn cyn gynted a phosibl.
Trafodwyd statws adeilad rhestredig yr eglwys a'r ymrwymiadau sydd yn gysylltiedig â'r statws adeilad rhestredig yn enwedig yn wyneb y ffaith nad ydi Cadw yn fodlon rhoi cymorth ariannol i warchod yr adeilad. Penderfynwyd cysylltu gyda Eryl Williams, swyddog cadwraeth Cyngor Gwynedd i drafod.
**iv)Hysbysfyrddau:** Disgwylir y bydd yr hysbysfyrddau yn cael eu derbyn yn fuan, awdurdodwyd talu y dderbyneb amdanynt os bydd angen gwneud cyn iddynt gael eu hanfon.
**v)Cyfarfod gyda'r Adran Forwrol:** Roedd y swyddog morwrol wedi gohirio y cyfarfod oedd i fod i'w gynnal ar y 31ain o Fawrth, mae'r clerc wedi gofyn iddo am ddyddiad arall.
**vi)Cae chwarae:** Derbyniwyd adroddiad gan y Cyng Gwenllian Hughes Jones yn dilyn derbyn yr adroddiad iechyd a diogelwch, cadarnhaodd fod Pwyllgor y Cae Chwarae yn rhoi sylw i'r materion a nodwyd gan yr archwiliwr.
**5) Gohebiaethau:**
**i)Adnewyddu y polisi yswyriant:** Cylchredwyd y polisi er mwyn i'r aelodau gael golwg arno er mwyn ei adolygu os oes angen. Cytunwyd fod y gorchudd yn ddigonol a chytunwyd i adnewyddu y polisi.
**ii)Llythyr gan Penny Ellison ynghylch ymyl y ffordd ger Bodarfor:** Mae adran priffyrdd Cyngor Gwynedd bellach yn delio gyda'r gwyn am rychau yn y gwellt glas ar ochr y ffordd a grewyd gan gerbydau.
**iii)Llythyr Cyngor Tref Pwllheli ynglyn a'r ambiwlans awyr:** Cynhelir cyfarfod cyhoeddus yn Ysgol Glan y Môr ar yr 28ain o Ebrill am 7yh.
**6) Cynllunio**

C23/0212/30/LLCodi adeilad newydd i'w ddefnyddio fel storfa amaethyddol ynghyd a gwaith tirlunio cysylltiol (ail gyflwyniad) - Pant Valley, Rhydlios, Pwllheli, Gwynedd - cefnogi
C23/0221/30/LL Cais ar gyfer darparu storfa slyri tanddaearol - Solfach, Uwchmynydd - cefnogi
C23/0220/30/LL Cais ar gyfer darparu storfa silwair -Solfach, Uwchmynydd - cefnogi

**7)Apeliadau ariannol**

i)Côr Cantorion Llŷn: Trafodwyd y cais a mynegwyd siom nad ydi y côr yn defnyddio neuaddau Y Rhiw a Rhoshirwaun gan greu incwm iddynt. Penderfynwyd rhoi £50 o gyfraniad ond datgan y byddai y Cyngor wedi ystyried rhoi mwy pe byddai y côr yn defnyddio neuaddau yng nghymuned Aberdaron ar gyfer eu hymarferion.

**8)Ariannol**

Nodwyd fod y ffurflen flynyddol wedi ei derbyn gan Swyddfa Archwilio Cymru a'i bod yn amser penodi Archwiliwr Mewnol i edrych ar gyfrifon y Cyngor am y flwyddyn 2022-23. Penderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd wneud yr archwiliad mewnol.

**Taliadau**

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:
Iwan Hughes: £195.53 (cyflog)
HMRC (Paye): £48.80
Nesta Roberts: £12.56 (CCTV trwy S/O)
HSBC: (ffioedd): £5.80
Zurich Municipal: £1,917.64 (yswyriant)
Penderfynwyd awdurdodi y taliadau canlynol i'w talu pan fydd y gwaith wedi ei gwblhau:
Donald Insall Associates: £2,100
Cwmni Celyn £2,280
Greenbarnes Ltd: £1822.33 (hysbysfyrddau)

**Derbyniadau**

Cronfa AHNE Llŷn: £7,971.48 (grant hysbysfyrddau a'r eglwys)
Llechen Llŷn: £105 (gosod carreg fedd Alwyn Jones)

**9) Materion ffyrdd a llwybrau:**

i)Mae gwaith wedi ei wneud ar y llwybr o Nant y Gadwen sydd yn ymuno gyda Llwybr yr Arfordir yn ddiweddar ond mae pridd wedi ei adael yn dilyn agor rhych. Penderfynwyd gofyn i'r adran llwybrau os mai hwy oedd yn gyfrifol am y gwaith ac os oes modd symud y pridd.
ii)Mae cerbyd wedi mynd i'r ffôs ger Eglwys Bodferin ac o ganlyniad mae'r ffôs wedi cau a dwr yn llifo i'r lôn. Penderfynwyd cysylltu gyda'r adran briffyrdd.
iii)Mae twll yn y ffordd rhwng Morfa Mawr a Morfa Bach.
iv)Derbyniwyd cwyn am faw ci yn ardal Y Rhiw (rhwng pen lôn Tan Fron a Carreg Lefain Fawr yn benodol).
v)Atgoffwyd fod angen trefnu sesiwn hyfforddiant defibs yn ardal Aberdaron.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Cyngor yn Neuadd Y Rhiw, nos Lun y 15fed o Fai am 7.30pm**